


Darganfod

Caerwys



Croeso i Gaerwys

Caerwys yw'r dref leiaf ym Mhrydain sydd â Siartr Frenhinol ganddi, ac mae iddi hanes hir a difyr. Dengys y tomennydd claddu niferus o Oes yr Efydd a darganfyddiadau eraill o'r cyfnod fel y torch aur, a bryngaer Oes yr Haearn ar Benycloddiau gyfagos fod teuluoedd cynhanesyddol yn defnyddio'r ardal hon. Efallai bod y Rhufeiniad wedi bod ym marchnata'n lleol ac, erbyn 1086, roedd Caerwys yn dref oedd yn ddigon pwysig i gael cofnod yn The Domesday Book.

Mae'r dref yn falch o'i chysylltiadau brenhinol. Yn yr 11eg a'r 12fed ganrif roedd ganddi gysylltiadau cryf â thywysogion Gwynedd oedd â phlas ym

Maesmynan. Yn 1290, rhoddodd Edward I Siartr Frenhinol i'r dref gan ei gwneud yn Fwrdeistref Rydd. Mae'n un o'r deg o drefi yng ngogledd Cymru a gafodd Siartr Frenhinol, ond roedd pob un o'r lleill yn drefi amddiffynedig Normanaidd fel Rhuddlan, y Fflint a Chonwy, ble cyfyngwyd ar hawliau'r Cymry. Roedd tref Caerwys yn unigryw am mai hi oedd yr unig dref Gymreig y rhoddwyd y fraint hon iddi.

Parhaodd y dref i ffynnu ac i fwynhau nawdd brenhinol drwy'r Canol Oesoedd a chyfnod y Tuduriaid. Nid yn unig roedd hi'n ganolfan masnach, roedd ganddi draddodiadau Cymreig

Ymchwil: Lorna Jenner, Berwyn Roberts, John Rees, Tom Anwyl, y diweddar Tom Lloyd-Roberts, Cymdeithas Hanes Caerwys, Awduron Arweiniad Caerwys, 1979.

Ysgrifennu: Lorna Jenner

Dylunio: William Smuts

Argraffu: Design and Print 01352 704000

Ffotograffiaeth bywyd gwyllt: Steve Young, Simon Booth,

Ffotograffau: Christine Griffiths, Lorna Jenner, Dilys Jones, Vicky Jones, Annette Jones, Estelle Parry, Phillip Parry, Elvet Pierce, Neville Pierce-Jenkins, John Rees, Berwyn Roberts, Alan a Julie Thomas, Tom Wood

cryf hefyd. Adnabyddir y dref yn fan geni'r Eisteddfod yng Ngogledd Cymru. Heddiw, mae'r traddodiadau cerddorol hir yn cael eu cadw drwy gyfrwng y Côr Meibion a'r Carolau Nadolig ar y sgwâr.

Erbyn y 19eg ganrif roedd pwysigrwydd rhanbarthol Caerwys yn dirywio, er gwaethaf agor y rheilffordd rhwng yr Wyddgrug a Dinbych. Adeiladwyd priffyrdd newydd oedd yn osgoi'r dref ac fe ddechreuodd trefi cyfagos Fflint a Threffynnon ffynnu wrth i ddiwydiant ddatblygu, tra arhosodd tref Caerwys yn dref wledig ar y cyfan. Ar yr Afon Chwiler roedd wyth melin yn malu yd ac roedd y marchnadoedd anifeiliaid yn llewyrchus i'r ugeinfed ganrif. Mae ffermio'n dal yn bwysig hyd heddiw, a'r Sioe Amaethyddol yn denu pobl o bell ac agos.

Daeth ymwelwyr a phobl ar wyliau i'r ardal ar y trenau ar ôl cael eu swyno gan y dref hanesyddol a'r cefn gwlad hardd o gwmpas. Arferai nifer wersylla ar y ffermydd neu mewn ystafelloedd wedi'u rhentu gan bobl leol, ac yn raddol fe ddatblygodd parciau carafannau parhaol a lletyau gwyliau.

Mae'r trigolion a'r ymwelwyr yn dal i fwynhau Caerwys heddiw, gyda'i threftadaeth gyfoethog a'i chymuned fywiog.

Cynhyrchwyd y llyfryn hwn gan y gymuned leol i ddathlu treftadaeth ddiwylliannol a naturiol yr ardal. Diolch o galon i bawb a ddarparodd luniau neu a rannodd eu hatgofion a'u gwybodaeth.

Gellir llwytho'r llyfryn hwn i lawr o www.cadwynclwyd.co.uk neu www.flintshire.gov.uk/tourism



Drwy'r oesoedd

2000 CC

Teuluoedd Oes yr Efydd yn ffermio yn yr ardal ac yn adeiladu nifer o domennydd claddu.



750BC-47 OC

Pobl Oes yr Haearn yn adeiladu bryngaer Penycloddiau ar Fryniau Clwyd cyfagos.



1081-1272

Roedd plas Tywysogion Cymru ym Maesmynan, a thybir iddynt gynnal llys yn yr ardal.



1290

Edward I yn rhoi'r Siatr Frenhinol gyntaf i Gaerwys.



1356

Rhoi'r hawl i gynnal marchnad wythnosol a dwy ffair yn flynyddol.

1244

Y Pab yn trefnu cyfarfod yng Nghaerwys i benderfynu a oedd y cytundeb rhwng y Tywysog Dafydd a Henry III yn ddilys.

Tua 1400-1409

Danfôn milwyr o Ruddlan i ymosod ar gefnogwyr Owain Glyndŵr yng Nghaerwys yn ystod y gwrthryfel.



1923

Agor y Neuadd Goffa.

1810

Agor Capel Bethel, y cyntaf o bump o gapeli'r Anghydffurwyr yng Nghaerwys.



1568

Cynnal Eisteddfod Fawr yng Nghaerwys, comisiynwyd gan Elizabeth I.



1869

Agor Rheilffordd yr Wyddgrug i Ddinbych, gyda gorsaf yng Nghaerwys.

1771

Codi'r felin papur gyntaf yn Afonwen.



1990

Dathliadau 700 mlwyddiant y Siatr Frenhinol gyntaf.



1975

Gwasanaeth i gyflwyno Bathodyn a Chadwyn newydd y Maer.



1985

Dynodi Bryniau Clwyd yn AHNE.



1968

Eisteddfod i ddathlu 400 mlwyddiant Eisteddfod Caerwys.



Canolfan masnach

Bu Caerwys yn ganolfan bwysig yn yr ardal o ran gweinyddu a marchnata am ganrifoedd. Enillodd amlygrwydd yn y lle cyntaf oherwydd cysylltiadau'r dref â Thywysogion Gwynedd yn y 11eg a'r 12fed ganrif. Fe briododd y Tywysog Gruffydd ap Cynan wraig leol ac roedd ganddo blas ym Maesmynan. Parhaodd ei olynyddion, Llywelyn ap Gruffudd (Llywelyn ein Llyw Olaf), a'i frawd y Tywysog Dafydd i ddefnyddio Maesmynan hyd iddo gael ei orchfygu gan Edward I. Yn y flwyddyn 1244, dewisodd y Pab eglwys Caerwys yn fan cyfarfod dau abad er mwyn iddynt ddod i benderfyniad ynghylch yr anghydfod rhwng y Tywysog Dafydd a'r Brenin Harri'r III; ffaith sy'n adlewyrchu pa mor bwysig oedd y dref ar y pryd. Gorwedda delw garreg yr honnir iddi fod o wraig Dafydd, Elizabeth Ferrers, yn eglwys Caerwys hyd heddiw.


Tyfodd pwysigrwydd y dref yn ganolfan marchnata wrth i dreflannau Normanaidd y Fflint a Rhuddlan ddatblygu ac i Abaty Dinas Basing ddod yn fwy dylanwadol. Hefyd, roedd y dref mewn lleoliad da ar gyfer marchnata ar draws y ffin gyda Chaer.

Pan roddodd Edward I Siartr Frenhinol i Gaerwys yn 1290, roedd y dref eisoes yn dref Gymreig sefydledig, ac yn dref wahanol iawn i drefi siartredig eraill gogledd Cymru. Roedd y rhain yn drefi newydd amddifynedig lle rhoddwyd hawliau marchnata i mewnddyfodiaid

*Plas Maesmynan ger safle'r
hen blas canoloesol*



o Loegr ond gwaharddwyd y Cymry rhag masnachu, ac nid oedd unrhyw groeso iddynt fyw o fewn muriau'r trefi Normanaidd. Yng Nghaerwys roedd y Cymry yn fwrdeiswyr rhydd a chanddynt eu hurdd masnachwyr a'r un hawliau i fasnachu a'u huwcharglwyddi Normanaidd. Yn 1292, roedd gan 39 o'r 42 o drethdalwyr enwau



Argraff Artist o Neuadd y Farchnad

Cymraeg, ond pump yn unig oedd yn y Fflint ac un yn unig yn Rhuddlan. Yn ystod y cyfnod hwn y lluniwyd tref Caerwys ar batrwm grid fel y mae heddiw.

Yn y flwyddyn 1351 rhoddwyd ail siarter i'r dref, gan ei gwneud yn Fwrdeistref Drefol, ac yn 1356 cafodd yr hawl i gynnal marchnad wythnosol a dwy ffair y flwyddyn.

Am ganrifoedd Caerwys oedd un o drefi pwysicaf Sir y Fflint, nid yn unig am ei bod yn dref farchnad ond hefyd am ei bod yn ganolfan farnwrol. Cynhaliwyd y Brawdlys yn yr Hen Lys ar y Stryd Fawr nes ei symud i'r Fflint yn 1672. Cynhaliwyd Llys yr Ynadon yn y Tŷ Sesiynau tan y 1960au.

Tref Caerwys

Wrth i ddiwydiant ddatblygu mewn mannau eraill fe gollodd Caerwys ei phwysigrwyd ac yn raddol daeth yn dref dawl fel y mae hi heddiw. Ond mae'r bobl leol yn dal yn falch o'u gorffennol gwych. Yn 1968 derbyniodd Caerwys ei Harfbais gan Arglwydd Raglaw Sir y Fflint.

Mae'r arwyddair TANNAU ARIAN – GEIRIAU ARIAN yn ymwneud â'r eisteddfodau, gan awgrymu bod y tannau'n ysbrydoli'r geiriau.

Yn 1974, sbardunodd y Ddeddf Llywodraeth leol 1972 i dref Caerwys ail-gadarnhau ei status yn dref. Crëwyd Cyngor newydd Tref Caerwys a phenodwyd y Maer cyntaf; y Cyngorydd Elwyn Parry. I ddathlu'r achlysur hwn codwyd arian i lunio ac i gynhyrchu Bathodyn a Chadwyn y Maer.



Ar 7fed Rhagfyr, 1975 cynhaliwyd gwasanaeth dinesig arbennig yn yr eglwys i gyflwyno'r bathodyn a'r gadwyn. Trigolion hynaf y dref a gyflwynodd y cadwyni i'r maer presennol y Cyngorydd Berwyn Roberts a'i wraig. Daeth y Sul Dinesig, fel y'i gelwir, yn achlysur blynyddol erbyn hyn.


Ar gadwyn y Maer ceir wyth o symbolau: y pren ar y groes; plu Tywysog Cymru i nodi'r cysylltiad rhwng y dref a Thywysogion Cymru; twr y eglwys; aradr i gynrychioli'r cysylltiadau amaethyddol; olwyn melin i

gynrychioli melinau Afonwen; ffald ar gyfer anifeiliaid coll, i gynrychioli'r ffeiriau enwog; y Ddraig Goch i gynrychioli'r Siartr Brenhinol 1290; a thelyn i gynrychioli cysylltiadau dref â'r eisteddfodau.

"Yn y gwasanaeth mi ddywedais y dylai'r gadwyn ei hunan fod yn nawfed symbol, am ei bod yn arwydd o gymuned lewyrchus. Mae'n bleser gen i weld bod Caerwys yn dal i ffynnu heddiw." Berwyn Roberts

Sir John Herbert Lewis (1858-1933)

Daeth John Herbert Lewis, yr oedd ei deulu wedi byw ym Mhlas Penucha ers y 15fed ganrif, yn wleidydd dylanwadol ar ran y Rhyddfrydwyr. Yn rhinwedd ei swydd yn Henadur fe ymgyrchodd yn llwyddiannus am well addysg uwchradd yn y Sir a daeth yn gadeirydd cyntaf Cyngor Sir y Fflint. Etholwyd yn Aelod Seneddol Bwrdeistrefi Sir y Fflint yn Etholiad Cyffredinol 1892 ac fe barhaodd yn y Senedd am 30 mlynedd, yn aelod y fainc ôl ac yn weinidog y llywodraeth gan ddod yn gyfaill ac yn gynghreiriwr gwleidyddol i Lloyd George. Chwaraeodd ran amlwg pan sefydlwyd Amgueddfa Genedlaethol Cymru a'r Llyfrgell Genedlaethol.



Y Maer Berwyn Roberts, a'r Faeres Betty Roberts yn derbyn eu cadwyni oddi wrth un o drigolion hynaf Caerwys, Caroline Johnson a Percy Williams

Y creigiau a'r cyfoeth

Y creigiau o danodd sy'n creu tirwedd amrywiol ardal Caerwys. I'r de ac i'r dwyrain mae'r tir yn codi i Fryniau Clwyd, sy'n gefnen o garreg glai gyda brigiadau o galchfaen - y cwbl yn gefndir syfrannol i'r ardal.

Gorweddadur dref ei hunan ar lwyfandir calchfaen sy'n ymestyn tua'r gogledd a'r tu hwnt i'r A55. Bu cloddio am y calchfaen ar raddfa fechan am ganrifoedd. Mae hen waliau cerrig yn dal yn ffiniau i'r caeau a'r rhan fwyaf o'r hen dai wedi'u codi o'r garreg galch leol. Roedd yma nifer o odynnau calch, lle cafodd y calchfaen ei falu i wneud calch ar gyfer mortar adeiladu ac i wrteithio'r pridd. Ar un adeg cloddwyd am gerrig twffa - calchfaen meddal iawn - yn Chwarel Twffa Caerwys i wneud sment ac wedyn ar gyfer gerddi alpinaidd.

Yn nyffryn llydan yr Afon Chwiler i'r de fe dynnwyd tywod a gro dros y canrifoedd, yn wir, mae chwarel tywod yn parhau i weithio ym Maesmynan. Mae nifer o hen chwareli'n dal i fod, ac mae odynnau enfawr yr hen waith sment yn Afonwen, Heron's Retreat erbyn hyn, yn atgof o'r diwydiant a fu yma gyt.

Datblygodd melinau papur a gweithfeydd gwifrau ar hyd lan yr afon yn Afonwen, gan ffrwyno ynni'r dŵr i yrru'r peiriannau. Agorodd y felin bapur gyntaf yn 1786, a'r ail felin yn 1822. Cyfeiria adroddiad 1870 at ba mor lân oedd melin Afonwen a pha mor uchel



Gweithwyr a staff, Cwmni Portland Cement Sir Ddinbych




Gwneud papur yn Afonwen

oedd safon y papur a ddefnyddid i wneud papur cyfreithwyr, llyfrau cyfrifon ac arian papur. Caeodd yn 1918 ac fe agorodd ffatri gwneud menig ar y safle. Yn 1966 defnyddid y felin i wneud gwlanen Gymreig. Heddiw, twristiaeth yw'r prif ddiwydiant yma, a'r adeiladau'n rhan o atyniad ymwelwyr. Chwalwyd y simneiau, ond mae'r Ganolfan Grefftau, Canolfan Henebion ac Edenshine Restaurant wedi'u lleoli yn rhai o adeiladau gwreiddiol y felin ar lannau'r afon. (Tel: 01352 720 797).

Agorodd gwaith crwynwr ar un o lednentydd yr Afon Chwiler yn Saith Ffynnon. Yma roedd y gwlân yn cael ei dynnu oddi ar y crwynau ac roedd y cyflenwad da o ddŵr glân y ffynnon yn anhepgor ar gyfer y gwaith hwn. Erbyn hyn mae nifer o lynnoedd pysgota yn tynnu dŵr o'r ffynnon. Ceir ynddynt frithyll wedi magu â llaw. (Seven Springs fisheries and café, Tel: 01352 720511).



Gweithwyr yng ngwaith y crwynwr



Ffair a fferm

Ar hyd yr oesoedd bu ffermio'n rhan bwysig o fywyd Caerwys, a hyd at yn ddiweddar iawn roedd tair fferm o fewn ffiniau'r dref ei hunan. Mae gan bobl leol atgofion am gasglu llefrith o'r ffermydd a gweld catel yn cael eu gyrru drwy'r strydoedd.

Ers y Canoloesoedd bu'r ffeiriau anifeiliaid yn denu prynwyr a gwerthwyr o bell ac agos. Defnyddid un o'r strydoedd i'r catel, un arall i'r moch ac un arall i'r defaid. Yn fwy diweddar, roedd y Farchnad ar Ffordd Treffynnon yn farchnad anifeiliaid (byngalos Llys y Goron erbyn hyn).

Yn ystod y dyddiau ffair roedd Caerwys yn lle swnllyd ac yn berwi o bobl. Roedd o leiaf saith o dafarndai yn y dref, ac ar Ddiwrnod Ffair câi rhai o'r tai preifat yr hawl i werthu alcohol hefyd gan osod

"Dyweddodd rhyw hen ŵr wrthyf y gallet glywed acenion a thafodieithoedd pob rhanbarth y deyrnas yng Nghaerwys ar ddiwrnod y ffair."

Y diweddar Tom Lloyd Roberts



'Yn ystod y 1890au, roedd gan fy hen daid, Robert Evans, ardd fasnachol yn Waen Rodynyn yn Bodfari a deuai i Ffair Caerwys yn rheolaidd. Ar ôl gwerthu ei gynnyrch, arferai wario'r holl enillion yn y tafarnau a mynd adre'n feddw chwil. Byddai rhywun yn ei roi yng nghefn ei drol, slap ar ben ôl y ceffyl a gweiddi "Adre â fo Charlie!"'

Julie Thomas

"Roedd rhai o'r ffermydd wedi prynu tractorau ar ddechrau'r 1940au i'w defnyddio yn lle ceffylau ond yn ystod eira mawr 1947, roedd y tractorau'n ddiwerth a'r ceffylau'n angenrheidiol i dynnu'r ceir llusg."

John Rees



torch o ddail celyn y tu allan i'w drws. Byddai ymladd mewn ffair yn aml iawn ac, yn ôl yr hanes, y lle i setlo ffrae oedd ar Faes y Gwaed (enw priodol!) y drws nesaf i Dafarn y Porthmyn. Mae'r hen ffald ar Lôn y Porthmyn yn ein hatgoffa o ddyddiau prysur y ffair ers talwm. Defnyddid hwnnw i gadw anifeiliaid coll tan ddeuai'r perchennog i'r golwg.



Hyd at y 1950au, ceffylau oedd yn tynnu peiriannau'r ffermydd. Roedd yng Nghaerwys lawer o arddwyr (dynion yn trin yr aradr), oedd yn ymfalchio mewn aredig gwys syth. Ambell waith, cynhaliwyd Gornest Aredig Flynyddol Sir y Fflint yn y Blorant. Mewn cystadleuaeth aredig yng Nghaerwys yn 1973 fe enillodd y ddau frawd, Ted a Bob Jones, a'u dau geffyl gwedd yn erbyn y tractoriaid. Mae Sioe Amaethyddol Caerwys wedi'i chynnal bron bob blwyddyn ers yr Ail Ryfel Byd, ac mae'n dal yn boblogaidd hyd heddiw.

John Edwards oedd y milfeddyg cyntaf i ymarfer yng Nghaerwys, ac yn fawr ei barch. Ysgrifennodd y llyfr milfeddygol cyntaf yn y Gymraeg. Roedd hefyd yn fardd dawnus a phregethwr tanbaid. Claddwyd ym mynwent Caerwys ac mae'r gerdd ar ei fedd yn deyrnged i'w ddoniau fel milfeddyg a phregethwr.



Canolfan diwylliant

Mae gan Gaerwys draddodiad barddol hir. O'r dyddiau pan roedd Llysoedd Tywysogion Cymru yma, byddai'r beirdd a'r clerwyr yn ymgynull ac yn canu yn y dref. Tybir mai Gruffydd ap Cynan a gynhaliodd yr eisteddfod gyntaf tua 1100 ac erbyn cyfnod y Tuduriaid roedd yn dref sefydledig ar gyfer cynnal eisteddfod.

Comisiynodd Harri'r VIII eisteddfod yma yn 1523 i lunio cyfundrefn y beirdd. Comisiynodd ei ferch, Elizabeth I, yr ail eisteddfod yn 1568, gan orchymun i'r holl feirdd ymgynull er mwyn eu beirniadu, eu graddio a'u trwyddedu. Derbyniodd bum deg pump o feirdd dystysgrif oedd yn rhoi'r hawl iddynt ganu ac i ddysgu gan sicrhau cynnal y safonau uchel.

Pylodd y diddordeb yn y traddodiad barddol am gyfnod nes i Gymdeithas y Gwyneddigion gynnal Eisteddfod Caerwys ar 29 Mai 1798 i'w atgyfodi. Dyma'r eisteddfod a sefydlodd draddodiad yr Eisteddfod Genedlaethol.

Trefnodd y bobl leol nifer o ddigwyddiadau fel rhostio mochyn i godi arian at yr eisteddfod.



Yn 1968 bu eisteddfod arall i goffau 400 mlynedd Eisteddfod Elizabeth I. Dechreuodd y dathlu flwyddyn ymlaen llaw pan gyhoeddwyd yr eisteddfod ym mhob tref farchnad yn Ngogledd Cymru.



"Ym mis Gorffennaf 1967, cyhoeddwyd yr eisteddfod yn Sgwâr Caerwys, ac yna cafwyd marchnad a dathliadau. Gwisgodd nifer bychan ohonom wisgoedd cyfnod Elizabeth I a marchogaeth i Gastell Rhuddlan gyda sgrôl y cyhoeddi lle cafodd ei ddarllen. Yn ystod yr wythnosau canlynol aethon ni â'r cyhoeddiad i'r trefydd pellach. Roedd y ceffylau'n cael eu cludo mewn bocsys hyd gyrion y dref, ac wedyn roeddw'n eu marchogaeth i ganol y dref i gyflwyno'r sgrôl."

John Rees

Tynodd yr eisteddfod hon sylw'r Frenhines Elizabeth II, ei noddwr, a daeth y Dywysoges Margaret i'r achlysur ar ei rhan. Daeth pobl yn llu i weld y seremoni agoriadol ac i wylio Gorsedd y Beirdd yn gorymdeithio drwy'r strydoedd yn eu gwisgoedd am y tro cyntaf y tu allan i'r Eisteddfod Genedlaethol. Daeth 32,000 o bobl i Gaerwys yr wythnos honno!



Y Dywysoges Margaret yn cyfarfod â Brownies Caerwys.



Y dathliadau yn parhau

"I bobl ifanc yr 1950au, roedd y côr yn gyfle gwyh i gymdeithasu. Roeddem yn mwynhau cynnal cyngerddau ac roedd ymarfer y côr ar nos Wener a nos Sul yn hwyl fawr. Daeth nifer o bobl o hyd i ddarpar wŷr a gwragedd drwy'r Côr Ieuenctid!"
Dilys Rees

Er bod newidiadau wedi bod, mae'r traddodiad cerddorol a diwylliannol yn dal i ffynnu yn y dref, gan ymaddasu at gyfnod gwahanol. Rhwng y ddau ryfel, roedd Caerwys yn enwog am ei chôr cymysg gan ennill cadair yn Eisteddfod Llansannan yn 1926. Byddai'r Parchedig T.R. Jones, gweinidog yr Eglwys Bresbyteraidd, yn arfer ag annog y bobl ifanc i ganu gan ddefnyddio dull y tonic sol-ffa. Atgyfodwyd côr yr oedolion i gystadlu yn Eisteddfod

Genedlaethol Rhosllannerchrugog yn 1945 ac eto ar gyfer Gŵyl Prydain. Ffurfiwyd côr ieuenctid yr adeg hon hefyd.

Yn y flwyddyn 2000, ffurfiwyd Côr Meibion i ddathlu'r Mileniwm. Roedd gymaint o ddiddordeb nes i'r côr barhau, ac mae'n dal i gynnal cyngerddau'n rheolaidd. Mae'r cwmni drama'n llwyddiannus hefyd. Yn 1974 atgyfodwyd y carnifal blynyddol i godi arian tuag at adfer Neuadd y Dref, ac fe gafodd y carnifal ei gynnal tan y 1990au.

Yn y flwyddyn 2000, ffurfiwyd Côr Meibion i ddathlu'r Mileniwm.



"Roedd yr awyrgylch bob amser yn ddisgwyllgar wrth i orymdaith y carnifal gaglu y tu allan i Piccadilly. Byddai Brenhines y Carnifal yn cyrraedd, wedi'i gorseddu mewn cerbyd â cheffyl yn ei dynnu gyda'r osgordd a'r marchogion ar y naill ochr a'r llall iddi. Ar ôl i bawb gasglu at ei gilydd byddai'r band yn cychwyn a'r rhes hir yn symud yn araf tua Maes y Neuadd."

Mags Owen



Roedd gymaint o ddiddordeb nes i'r côr barhau, ac mae'n dal i gynnal cyngerddau'n rheolaidd. Mae'r cwmni drama'n llwyddiannus hefyd.

Yn 1974 atgyfodwyd y carnifal blynyddol i godi arian tuag at adfer Neuadd y Dref, ac fe gafodd y carnifal ei gynnal tan y 1990au.

"Her Royal Highness, wants me to let you know that she found the pageant so wonderful, and would like you to congratulate everyone who took part and helped to make it a success."
Llythyr o Kensington Palace at y Maer, Phillip Parry

"Gofynnwyd imi ddangos y Dywysoges Margaret o gwmpas yr arddangosfa y bûm i'n helpu i'w threfnu. Roeddwn mewn gwisg oes Elizabeth I a gwenodd y Dywysoges pan foesymgrymais iddi gan ddweud nad yn aml byddai tywysoges yn derbyn moesymgrymu gan frenhines."
Hazel Formby

Y Dywysoges Margaret yn llofnodi llyfr yr ymwelwyr



Teithio a chludo

Yn yr hen ddyddiau, pan roedd Caerwys yn ganolfan ranbarthol marchnata a busnes, byddai nifer fawr o deithwyr yn ymweld â'r dref. Ymhlith yr ymwelwyr cynnar fyddai pererinion yn chwilio am iachâd yn Ffynnon Sanctaidd Sant Mihangel. Roedd tref Caerwys yn gorwedd ar un o lwybrau'r pererinion pwysicaf yng Nghymru - y ffordd o Ffynnon Gwenfrewi, Treffynnon i Dyddewi. Ystyriwyd dwy bererindod i Dyddewi yn gyfartal ag un bererindod i Rufain, a byddai tair pererindod yn gyfwerth ag un i Gaersalem. Yn ôl yr hanes, byddai'r pererinion yn galw i weddio wrth y garreg sanctaidd yng nghanol y dref, ar y safle a elwir yn Groes Caerwys.

O'r Oesoedd Canol ymlaen tan ddiwedd oes y ffeiriau yn y 1950au, roedd nifer fawr o borthmyn a masnachwyr yn teithio drwy'r dref. Yn y 18fed a'r 19eg ganrif deuai'r porthmyn â'u hanifeiliaid o ogledd orllewin Cymru i'w gwerthu yn Ffair Caerwys. Byddai llawer ohonyn nhw'n cael eu gyrru gannoedd o filltiroedd i Ganolbarth a de Lloegr i fwydo'r boblogaeth oedd yn prysur gynyddu yn y dinasoedd. Hyd yn oed yn yr ugeinfed ganrif, byddai'r porthmyn a'u cŵn wrth law i yrru'r catel i ben eu taith neu i orsaf Caerwys yn Afonwen.

Roedd nifer o dafarnau, gan gynnwys Pwll Gwyn, yn cynnig llety i'r porthmyn a chyfleusterau i roi dŵr i'r anifeiliaid. Ers talwm, yr enw ar Summerhill Farm ar Lôn y Porthmyn oedd Drovers Arms ac roedd yna lyn i'r anifeiliaid yfed ohono gyferbyn â Glan Llyn ar Stryd y Gogledd. Hen ffyrdd y porthmyn yw nifer o'r lonydd sy'n rhedeg allan o ganol y pentref, ac mae'r mylon llydain a'r pinwydd sy'n tyfu yma ac acw yn nodi'r ffordd ac yn dangos ble roedd croeso i'r porthmyn.



Yn y 16eg ganrif nid oedd y ffordd fawr o Gaer i Gaergybi yn rhedeg drwy'r dref ond yn hytrach yn ymuno â'r Ffordd Dinbych bresennol yn Afonwen. Yn y 18fed ganrif, sefydlwyd Ymddiriedolaethau Tyrpeg i wella cyflwr y ffyrdd. Codwyd arian i gynnal y ffyrdd drwy godi tâl oddi wrth y rhai oedd yn eu defnyddio, a chasglwyd y tollau yn y tolltai ar hyd y ffyrdd. Adeiladwyd nifer o dolltai ar ffyrdd allweddol o gwmpas Caerwys. Am fod y tollau yn amhoblogaidd, byddai rhai pobl yn defnyddio ffyrdd gwahanol i osgoi talu'r dreth. Yn ôl y sôn, roedd Ffordd Myhernia (Bohemia Road), sy'n rhedeg i lawr ochr Argoed, Ffordd Pen-y-Cefn ac yn ymuno â'r A541, yn cael ei defnyddio i osgoi'r tollty oedd ar Allt Caerwys, ger Bryn Derwen ers talwm.



Thomas Wynne

Un o'r teithwyr amlycaf sy'n gysylltiedig â Chaerwys oedd Thomas Wynne, Crynwr a hwyliodd gyda William Penn i'r America a sefydlu Pennsylvania yn 1682. Tybir bod patrwm grid strydoedd Philadelphia yn seiliedig ar batrwm tref Caerwys. Ganed Wynne ym Mron Fadog ym mhentref cyfagos Ysgeifiog, ond roedd yn gweithio yng Nghaerwys yn farbwr-feddyg.



Cyfnod y trê

Cafodd agor y rheilffordd yr Wyddgrug i Ddinbych yn 1869, gyda'r orsaf yn Afonwen (Gorsaf Caerwys oedd ei henw), effaith fawr ar yr ardal.

Rhoddodd hyn hwb i'r diwydiant lleol, gan olygu bod y deunydd crai a'r cynnyrch terfynol yn cael eu cludo'n gyflymach. Rhedai'r rheilffordd ochr yn ochr â'r melinau ac adeiladwyd seidin preifat i'r gwaith sment i'r gogledd o'r lein. Datblygodd iard goed lwyddiannus a chodwyd sied nwyddau i ddelio â'r nwyddau eraill.

Gwnaeth y rheilffordd les mawr i amaethyddiaeth hefyd. Roedd modd

cludo'r anifeiliaid ar y trê gan olygu'r diwedd ar yrru'r gwartheg am bellter. Anfonwyd llefrith o'r ffermydd lleol i Lannau Merswy a daethpwyd â chyflenwadau i mewn ar y trê. Datblygodd Mr George Rees fusnes bwyd amaethyddol llewyrchus gan ddefnyddio'r trê i gludo'r bwyd o Lerpwl.

Hyd nes agor y rheilffordd, ychydig yn unig o bobl a deithiai ymhell iawn o Gaerwys. Roedd llwybr troed rhwng y dref a'r orsaf drwy Goed Pwllgwyn ac roedd gwasanaeth bysiau hefyd, felly hawdd oedd cyrraedd y trê. Roedd mwy o ddewis gwaith am fod yr Wyddgrug a Dinbych o fewn cyrraedd hwylus ac roedd cyfle i deithio ymhellach hefyd i Lerpwl, Manceinion a Llundain.

Âi'r plant ar y trê i'r ysgol yn yr Wyddgrug ac roedd hi'n haws i'r bobl leol fynd i'r sinema neu i ddawnsio a gwrandao ar fandiau.

Deuai nifer fawr o filwyr o bob man ym Mhrydain ar y trê i wersylluoddy hyfforddi'r fyddin ym Maesmynan

cyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'n siwr bod yr hyfforddi'n waith ymdrechgar, ond o ddarllen y cardiau post, roeddent yn cymysgu gyda'r brodorion ac yn mwynhau'r wlad o gwmpas.

Deuai nifer fawr o bobl o lannau Merswy ar wyliau ac am ddiwrnod o hamdden. Roedd llawer yn gerddwyr oedd yn dod i fwynhau darganfod y brynau a'r dyffrynnoedd coediog.

Dechreuodd y bobl leol ddarparu ar gyfer y nifer cynyddol o ymwelwyr. Agorodd nifer o gaffis, rhoddodd y ffermwyr hawl i bobl wersylla'n anffurfiol yn eu caeau, a dechreuodd pobl logi ystafelloedd neu gartrefi gwyliau.

Deuai nifer mwy o ymwelwyr drwy dref Caerwys ar eu beic. Nid oedd mynd ar gefn beic am ryw 80-100 milltir y dydd yn ddim iddynt. Roedd Gwersyll Afon Wen ger Caerwys yn hoff fan aros iddynt.

Ar ôl i nifer fawr o bobl gael car a'r ffyrdd yn cael eu defnyddio'n amlach i gludo nwyddau, daeth cyfnod y rheilffyrdd i ben, ac fe gaeodd yn 1962. Er hynny dal i ddod wnaeth yr ymwelwyr. Erbyn hyn, mae nifer o ymwelwyr yn aros ar un o'r safleoedd carafannau yn y dref. Y safle hynaf yw Barlows, a sefydlwyd yn gynnar yn y 1960au, Daeth nifer o berchnogion y carafannau i Gaerwys i ddechrau pan roeddynt yn blant. Roedd bobl eraill yn mwynhau aros yn nhafarn Pwll Gwyn, Gwely a Brecwast lleol, bythynnod gwyliau a fflatiau.

Ideal weather favoured the Shropshire D.A.'s all-night ride on May 30th-31st, and the glorious moonlight views over Halkin Mountain and the Dee Estuary were particularly enjoyed before the party reached White River Camp, Caerwys, for breakfast. Then, passing Ysceifiog, Nannerch, Cilcain and the Leet Valley, a crossing of Moel Famma was made...

Cyclists Touring Club Gazette, July 1931



Bywyd bob dydd

Ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, ychydig iawn o bobl fyddai'n teithio aymhell o'u cartrefi ac roedd y dewis eang o siopau yn y dref yn gallu darparu'u holl anghenion bob dydd.

"O dro i dro, pen roedden ni'r bechgyn yn cerdded i'r ysgol, roedden yn gallu clywed moch yn gwichian ac wedyn roedden ni'n gwybod bod y cigydd yn lladd moch y diwrnod hwnnw. Ar ôl ysgol, dyma'n ni mynd ar ein hunion i siop y cigydd ar y Stryd Fawr ac yn gofyn am swigen mochyn. Roedden ni'n arfer â'i chwythu, clymu cwlwm ynddi a'i chicio o gwmpas Y Groes nes byddai'n byrstio."
Tom Anwyl (atgofion o ddiwedd y 1920au a dechrau'r 1930au)

Yn y 1950au, roedd tri o gigyddion, tri groser, dau ddilledydd, dau bobydd, gwerthwr nwyddau haearn a nifer o siopau bach oedd yn gwerthu fferins a phapur newydd. Mae llawer o'r brodorion yn cofio gwynt y coffi mâl

a'r bocsys o fisgedi wedi torri yn siop y groser, a'r gwynt o'r siop tsips yn Liverpool House oedd yn tynnu dŵr o'r dannedd.

Roedd gan Gaerwys ddau fanc ac un Swyddfa'r Post hefyd. Yn y Stryd Fawr roedd y Swyddfa Bost gyntaf, ac yna symudodd i'r Sgwâr. Cafodd ei llosgi yn 1963, gan ailagor yn Central Stores ar Stryd y Dŵr (lle ma'n bodoli heddiw, yn rhan o Siop Pori Gwych Morgan).



Gwerthai Manchester House, siop y drws nesaf i Neuadd y Dref, bapurau newydd a llyfrau. Byddai pobl yn prynu llyfr i'w ddarllen ac yna'n mynd ag o'n ôl i'w ailwerthu.
Dilys Jones

"Roedd Oswald Stores, Will's News erbyn hyn, yn gwerthu bwyd ar un ochr a dillad ar yr ochr arall. Gallech archebu unrhyw beth o staes i siwt!"

Berwyn Roberts

Cafodd Jack Featherstone, tafarnwr y Royal Oak ar y pryd, ei sbarduno i drefnu gwasanaeth tân gwirfoddol i roi cymorth wrth aros am yr injan tân oedd yn dod o Dreffynnon.

Pedair siop yn unig sydd yn y dref erbyn hyn, ond hawdd adnabod yr hen siopau wrth y ffenestri mawr ar flaen yr adeiladau.

Yn 1828 roedd wyth o dafarnau yn y dref, i gwrdd ag anghenion y bobl leol a'r teithwyr, y porthmyn a'r bobl oedd yn mynychu'r ffeiriau. Heddiw, tair tafarn yn unig sy'n bodoli ond mae pob un yn croesawu pobl leol ac ymwelwyr fel ei gilydd.

Ar gyrion gogleddol y dref mae'r Piccadilly Inn, efallai bod y dafarn yn mynd yn ôl i 1662. Yr Arglwydd Mostyn oedd perchennog y dafarn ers talwm, dyn oedd yn hoff iawn o rasio ceffylau. Enillodd un o'i geffylau, Piccadilly, mewn ras ar hen gae rasio Treffynnon ger Babell ac, yn wob'r iddo, rhoddodd yr Arglwydd Mostyn y dafarn yn rhodd i'w joci a enwodd y dafarn ar ôl y ceffyl buddugoliaethus. (Tel: 01352 720284)

Mae The Royal Oak, sy'n sefyll ar Stryd y Dŵr yng nghanol tref Caerwys, yn mynd yn ôl i'r 16eg ganrif. (Tel: 01352 720269)

Efallai mai tŷ agweddi Plas Maesmynan oedd tafarn y Pwll Gwyn yn Afonwen ar y ffordd rhwng yr Wyddgrug a Dinbych. Yn ddiweddarach, bu'n dafarn y goets fawr ac yn lle i'r porthmyn aros y nos. (Tel: 01352 720227)



Capel ac eglwys

Yn ôl y sôn, mae Eglwys Sant Mihangel o'r 8fed ganrif pan roedd cwlth San Mihangel ar ei anterth. Tybir bod dŵr o'i ffynnon yng nghoed Maesmynan yn gallu iachau dafadennau a llygaid poenus. Defnyddid y ffynnon i fedyddio hefyd, a safai capel bychan dros y ffynnon ar un adeg. Ambell waith, cesglir dŵr y ffynnon a'i ddefnyddio i fedyddio yn yr eglwys.

Yn ôl bob tebyg, adeiladwyd yr eglwys bresennol ar ddiwedd y 13edd ganrif gan Anian II pan roedd yn Esgob Llanelwy. Bu Anian yn frawd yn Urdd Sant Dominic o Ruddlan ac yn gyffeswr i Edward I ar ei grwsâd. Cyflawnodd Anian raglen enfawr o ailadeiladu, a thybir mai ei waith yw llawer o Eglwysy dau-gorff Clwyd, gan gynnwys Eglwys Caerwys.

Y muriau a rhan isaf y tŵr yw rhai o'r rhannau hynaf, o'r 14edd ganrif. Mae'r rhan uchaf yn fwy diweddar o lawer, ac wedi'i hychwanegu yn 1769.

Mae'n eglwys anghyffredin am fod ganddi ddau borth mynwent, un a godwyd i ddathlu jiwbilî Aur y Frenhines Fictoria, a'r llall, sy'n hyn o lawer gyda ffrâm dderw o gyfnod cyn y diwygiad Protestannaidd.

Nid pawb o bobl y dref a addolai yn eglwys y plwyf. Ar ddiwedd y 1700au roedd pregethwy'r teithiol yn denu

cynulleidfaoedd mawr ac roedd dull symlach yr Anghydfurfwyr o addoli'n apelio at lawer o'r bobl leol. I ddechrau, byddai pobl grefyddol yn cyfarfod i weddio mewn tai preifat ond, wrth i'w niferoedd gynyddu, roedd angen adeiladau mwy a chododd yr enwadau gwahanol gapeli newydd yn y dref.


Erbyn 1905, roedd pump o gapeli yng Nghaerwys, gan gynnwys tri chapel gweddol fawr yng nghanol y dref. Roedd pob un wedi'u hystyngi neu eu hailadeiladu erbyn diwedd y 1800au, gan gwrdd â'r costau drwy godi arian yn lleol, sy'n dangos bod yna gefnogaeth frwd i'r achosion. Telir teyrnged i'r prif gyfranwyr ar gerrig yn waliau allanol rhai o'r capeli.

Roedd y capeli'n allweddol o ran meithrin diwylliant y dref gan drefnu eisteddfodau, corau a darlithoedd, a defnyddio'r Gymraeg ar adeg pan roedd yr iaith yn cael ei gwahardd yn yr ysgolion. Mae llawer o'r bobl hyn yn cofio adrodd neu ganu yn y Cyfarfod Mawrth yng Nghapel Bethel pan roedd aelodau'r pedwar capel yn dod at ei gilydd i gystadlu. Cynhaliwyd y gystadleuaeth flynyddol hon tan 1967.

Newidiwyd yr hen gapeli'n dai preifat erbyn hyn, ond mae Capel Bethel a'r Capel Presbyteraidd yn dal i ffynnu gan rannu adeilad yn Stryd y Dŵr.

Y Parchedig John Lloyd (1733-1793)

Penodwyd John Lloyd yn rheithor Caerwys yn 1778 gan ddal y swydd hyd ei farwolaeth. Roedd yn fawr ei barch fel ysgolhaig ac yn gyfaill mawr i Thomas Pennant - y llenor teithio, naturiaethwr and hynafiaethydd. Aeth gyda Phennant ar ei holl deithiau drwy Gymru gan ei gynorthwyo gyda'r iaith a'i gynghori yngl n ag arferion a llên gwerin. Roedd Angharad Llwyd, ei ferch, hithau'n hanesydd dysgedig.



Dyddiau ysgol

Yn y flwyddyn 1813 ceir y cofnod cyntaf o fodolaeth ysgol yn y pentref, pan ddisgrifiwyd bwthyn bach yn Lôn y Porthmyn yn 'commodious schoolroom'. Ariannwyd yr ysgol hon gan gymhorthdal oddi wrth y National School Society a gan danysgrifiadau oddi wrth y rhieni (pan roeddent yn gallu'i fforddio), a'r tîrfeiddianwyr lleol.

Mae'n rhaid bod nifer y disgyblion wedi cynyddu oherwydd, yn 1833, codwyd ysgol newydd ar y gornel rhwng y Stryd Fawr a Ffordd Pen-y-cefn. Tŷ preifat sydd yma erbyn hyn, ond mae'n hawdd dweud mai ysgol fu yma am fod tŵr y gloch yn dal yn ei le.

Erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif, roedd angen llawer o waith moderneiddio ar yr adeilad hwn ac roedd yn rhy fychan ar gyfer addysgu modern. Codwyd Ysgol yr Esgob gyferbyn â'r eglwys a'i hagog yn 1993.

Efallai bod yr adeilad a'r dulliau dysgu wedi newid llawer, er hynny mae llawer yn gyffredin rhwng y disgyblion â'u rhagflaenyddion. Roedd teithiau natur a dysgu am yr ardal leol yr un mor bwysig drigain mlynedd yn ôl, fel y dengys llyfr ysgrifennu Annette Jones.



Mae disgyblion heddiw'n mwynhau ymweld â choed Maesmynan ac yn ymfalchïo yn eu gwybodaeth o'r hanes lleol.

Faciwîs

Yn 1939, ar ôl dechrau'r Ail Ryfel Byd, cynyddodd nifer y disgyblion yn arw pan ddaeth llawer o faciwîs i'r ysgol. Roedd y dociau ar lannau'r Afon Merswy yn dargedau i fomiau'r gelyn, a daeth faciwîs o Wallasey a Birkenhead yn ogystal ag o ddinas Lerpwl ei hunan. Yn 1944, cyrhaeddodd 22 o blant Llundain i'r ysgol hefyd, pan ddioddefodd Llundain y bomio trwm.

Amrywiol iawn oedd profiadau'r faciwîs, yn ôl eu hamgylchiadau. Roedd rhai o'r plant yn byw gyda theuluoedd ac yn mynychu ysgol y pentref. Aeth nifer o blant oedd yn Babyddion i letya ym Mhlas Bryngwyn gyda'u hathrawon, a chawsant eu dysgu ar wahân yn Neuadd y Dref, Caerwys. Roedd llawer yn hiraethu am gartref ac yn ei chael hi'n anodd setlo, ond roedd rhai eraill wrth eu bodd yn y wlad, a daethant i fyw yn y dref ar ôl i'r rhyfel ddod i ben.

My aunt Joan was evacuated from Sacred Heart School, Liverpool, to Caerwys. She stayed with Mr and Mrs Jones, who were friends of the family, and was very happy there. After the war, she returned many times for holidays and the Jones became like aunt and uncle to her own sons.
Maureen Roach



Adeiladau hanesyddol yng Nghaerwys

Adeiladwyd Tŷ'r Gloch yn y 16eg ganrif. Yn arwydd bod y farchnad ar agor fe gannwyd cloch oedd yn hongian mewn ffenest uchel neu gilfach, yn ôl y sôn. Efallai bod y gloch yn cael ei defnyddio i ganu cnul pan fyddai angladd yn mynd heibio hefyd.

Yr Hen Lys oedd safle'r Llysoedd Maenorol a'r Brawdlysoedd yn ddiweddarach. Daw'r tŷ o gyfnod y Tuduriaid, ond mae'r wyneb yn Sioraidd.

Roedd Yr Hen Garchar (tŷ preifat erbyn hyn) ar Stryd y De ac ar un adeg roedd twnnel yn Cysylltu'r Carchar â'r Hen Lys.

Adeiladwyd Tŷ'r Sesiynau yn 1869 a'i ddefnyddio yn Llys Ynadon. Roedd ynddo ystafell y llys, carchar gyda dwy gell a llety i blismon.


Enwyd Croes Caerwys ar ôl carreg sanctaidd a safai yng nghanol y dref. Ceir sôn am onnen wrth y Groes mewn cerdd a gyfansoddwyd yn Eisteddfod 1568. Ers hynny bu nifer o goed yn tyfu yma. Ar ddiwedd y 1960au symudwyd y Groes i'r lleoliad presennol er diogelwch ar y ffordd, a phlannwyd coeden newydd.

Adeiladwyd Neuadd y Dref gyda'r arian a godwyd drwy danysgrifiad cyhoeddus; agorwyd yn 1874.

Codwyd y Neuadd Goffa a'r llain fowlio i gofio am y dynion lleol a laddwyd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf ar dir a roddodd Sir Herbert Lewis. Ychwanegwyd y cyrtiau tennis a'r maes chwarae plant yn ddiweddarach.

Ardal o dwmpathau yw Marion Luce ar dir agored a oedd unwaith yn chwarel cerrig adeiladu. Yn ôl yr hanes, cafodd yr ardal ei henw ar ôl merch ifanc a gafwyd yn euog o lofruddiaeth ar gam a'i chrogi yma.

Daeth ei datganiad o atal dienyddio ddeg munud yn rhy hwyr.



Lle i fywyd gwyllt

Saif tref Caerwys ar ochr ogleddol Dyffryn yr Afon Chwiler sy'n ardal o diroedd ffermio, gwrychoedd trwchus a chymoedd coediog gyda mynydd agored Bryniau Clwyd i'r de ac i'r gorllewin. Dynodwyd Bryniau Clwyd yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn 1985 er mwyn

cydnabod pwysigrwydd y dirwedd yn wladol. Mae'n un o wyth yn unig o dirweddau a ddiogelwyd yng Nghymru, pump AHNE a thri Pharc Cenedlaethol. Ceir yma rwydwaith da o lwybrau, llwybrau ceffylau, a lonydd tawel sy'n galluogi i bobl ddod i adnabod yr ardal yn hwylus.

Ar y priddoedd llaith yn y cymoedd coediog ceir helaethrwydd o blanhigion anghyffredin fel Cwlwm Cariad a nifer o fathau o fwsogl a chen. Ar ddechrau'r

gwanwyn mae'r coed yn frith o friallu, llygad Ebrill, a blodau'r gwynt. Erbyn diwedd y gwanwyn ceir y craf â'i aroglau cryf a chlychau'r gog yn orchudd ar lawr y goedwig. Hefyd, gellir dod o hyd i'r tegeirian coch a'r ceineirian.

Ffynna'r blodau gwyllt ar y glaswelltir sychach, gan gynnwys y pengaled, gorthryfail, gludlys goch, ffugbysen a thegeirian mannog. Mae ymylon y caeau a'r ffyrdd yn frith o liwiau yn yr haf. Dena'r blodau'r gloynnod byw a phryfed eraill sy'n casglu neithdar. Tyf blodau fel carpiog y gors a blodau pluog, tal, yr erwain mewn lleoedd mwy llaith.



Cwlwm Cariad

Cnocell fraith fwyaf



Bronwen y dŵr

Y fantell goch



Yn y gymysgedd gyfoethog o goedlannau, gwrychoedd aeddfed ac ymylon y ffordd ceir bwyd ar gyfer llawer o adar ac anifeiliaid. Mae yma nifer o walau sy'n dal yn gartref y moch daear, ac yn y gwanwyn mae'r goedlan yn llawn o ganu adar wrth iddynt gystadlu am gymar. Daw nifer o ymwelwyr mudol dros yr haf fel y siff-saff, telor yr helyg, gwybedog mannog i ymuno â'r rhywogaethau brodorol fel titw penddu, titw mawr, y gnoell fraith fwyaf a thelor y cnau.

Aeth yr ehedydd a'r gornchwiglen yn brinnach drwy Ynysoedd Prydain ond gellir eu gweld yn y caeau o gwmpas Caerwys. Yn y gaeaf, mae heidiau o goch dan adain yn gyffredin, a gwelir adar fel nico a phila gwyrrdd yn bwydo mewn heidiau mawr.

Ambell waith fe welir cwningod, llygod, llygod y dŵr, gwiwerod llwyd ac ysgyfarnogod yn y caeau. Mae'r rhain i gyd yn fwyd i'r llwynogod, y carlymod a'r adar ysglyfaethus. Gwelir y bwncathod yn aml iawn yn

cylchu yn yr awyr a'r cudyll coch llai yn hofran uwchben ymyl y ffyrdd. Gellir gweld cip o'r gwalch glas yn hedfan yn gyflym ac yn isel ar ôl ei ysglyfaeth o adar mân, efallai y gwelir y barcud hefyd o dro i dro.



Mochyn Daeaf

Ceir cynefinoedd cyfoethog i fywyd gwyllt yn y llynnoedd a'r afonydd cyflym. Ffynna'r gwtiar a'r hwyaid ar y llynnoedd, a gwelir y creyr glas yn aml yn sefyll yn y dŵr yn chwilio am bysgod. Yn yr haf bydd gwenoliaid a gwenoliaid y bondo yn hedfan a throi'n ystwyth uwchben y dŵr gan gasglu gwybed sy'n hedfan.

Tegeirian mannog



lâr amryliw

